# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Lleoliad Allanol** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 8 Chwefror 2021** |
| Amser: | **13.30 - 15.50** |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AS**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**David J Rowlands AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Nerys Evans, Pennaeth y Gwasanaeth, Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau**<br>**Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

### 1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfodydd 7 Rhagfyr a 21 Ionawr.

Materion yn codi – 7/12/20:
Addasiad y gyllideb atodol. Ar 13 Ionawr roedd y Comisiynwyr wedi cytuno ar gynnig y dylid gostwng y ddarpariaeth ariannol ar gyfer gwyliau blynyddol cronedig a gynhwysir yn yr ail gyllideb atodol, ac y cytunwyd arni yng nghyfarfod mis Rhagfyr, i £650,000.

## 2 Cyfnod pontio etholiadol - Bil Etholiad Cyffredinol Cymru (Coronafeirws) - Effaith ar Gomisiwn y Senedd

Cafodd y Comisiynwyr asesiad o effaith Bil Etholiad Cyffredinol Cymru (Coronafeirws) (“y Bil”) Llywodraeth Cymru ar Gomisiwn y Senedd. Roedd y rhain yn ymwneud yn arbennig â darpariaethau'r Bil i gwtogi ar gyfnod y diddymu, i ymestyn y pŵer i amrywio dyddiad yr etholiad ac i ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid i'r Senedd gynnal ei gyfarfod cyntaf ar ôl y bleidlais.

Ystyriodd y Comisiynwyr benderfyniadau allweddol fel paratoad ar gyfer deddfiad posibl y Bil. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â chyfnod etholiad a fyddai'n cynnwys 7 Ebrill - 28 Ebrill ('cyn-ddiddymu') a 29 Ebrill - 5 Mai (y cyfnod diddymu byrrach). Yn ystod y cyfnod hwn, bydd cyfyngiadau gwariant llym yn berthnasol i bob ymgeisydd o dan y gyfraith etholiadol.

Nododd y Comisiynwyr y dylid sicrhau chwarae teg i bob ymgeisydd yn ystod cyfnod yr etholiad, cyn belled ag y bo modd, er mwyn sicrhau etholiad teg a chyfle cyfartal i bawb; a, gan y byddai'r Bil yn creu amgylchiad anarferol, byddai angen cyhoeddi Rheolau a chanllawiau ychwanegol mewn perthynas â chyfnod yr etholiad.

Cytunodd y Comisiynwyr ar yr egwyddor y dylid, yn ystod y cyfnod cyn diddymu, ond darparu Aelodau ag adnoddau sy’n angenrheidiol i gyflawni busnes y Senedd sy'n gysylltiedig â byrhau’r diddymu, fel y mynegwyd yn y Memorandwm Esboniadol i’r Bil, hynny yw:

- gallu pennu dyddiad ar gyfer y bleidlais ar gyfer yr etholiad os bydd angen gohirio'r etholiad am reswm sy'n ymwneud â coronafeirws; a
- galluogi'r Senedd bresennol i ymateb, os bydd angen gwneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn arwain at yr etholiad.

Er mwyn gweithredu'r egwyddor, cytunodd y Comisiynwyr:

a) ar gyfer cyfnod yr etholiad (diddymu a chyn-ddiddymu gyda'i gilydd), gall pob Aelod gadw’r mynediad sydd ganddynt i’w proffiliau TGCh presennol. Byddai'r proffiliau hyn yn cael eu cyfyngu i gael gwared ar fynediad at gyfryngau cymdeithasol, cyfrifon gwe-bost a'r fewnrwyd (bydd mewnrwyd diddymu ar gael o hyd). Yn ogystal, gall pob Aelod

enwebu un o'u staff i gadw eu proffil presennol gyda chyfyngiadau yn yr un modd er mwyn galluogi cymorth i fod ar gael pe bai'r Senedd yn cael ei hadalw (gallai hyn gynnwys staff rhan-amser hyd at 1 cyfwerth ag amser llawn, ond rhaid cynnwys oriau contract llawn y staff cymorth na chaniateir iddynt fod yn fwy nag 1 cyfwerth ag amser llawn wedi'u cyfuno). Ni chaiff y staff cymorth a enwebir fod yn ymgeisydd eu hunain. Byddai'r darpariaethau hyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol o hyd at 4 proffil TGCh dros dro fesul Aelod a enwebir ar gyfer unigolion. Bydd aelodau'n cael eu hatgoffa'n gadarn o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod eu cyfrifon yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n amddiffyn eu hunain rhag y perygl o gŵyn, neu gadarnhau cwyn;

b) caiff mynediad i ystâd y Senedd ei gyfyngu o 7 Ebrill, ond bydd pasys diogelwch Aelodau a'u staff ar gyfer yr adeilad yn cael eu diffodd, yn hytrach na bod angen iddyn nhw gael eu dychwelyd. Os caiff y Senedd ei hadalw, bydd pasys yn cael eu gwneud yn weithredol unwaith eto;

c) dylai Aelodau a'u staff glirio eu swyddfeydd erbyn 6 Ebrill, o fewn gofynion rheoliadau Covid, gan gael gwared ar eitemau personol cymaint â phosibl, a threfnu hynny cyn cyfnod yr etholiad er mwyn sicrhau bod yr unigolion o dan sylw yn cadw pellter cymdeithasol.

d) Byddai cefnogaeth y Senedd ar gyfer gwaith achos yn ystod cyfnod yr etholiad yn cael ei gyfyngu yn unol â'r trefniadau ar gyfer y diddymu. Bydd y Gwasanaeth Ymchwil yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth ddefnyddiol ar y we, a fyddai wedyn ar gael i unrhyw Aelod ac ymgeisydd. Ni chaiff Aelodau na'u staff gyflwyno unrhyw geisiadau i'r Gwasanaeth Ymchwil, y Gwasanaeth Cyfreithiol na'r Gwasanaeth Cyfieithu ar ôl dechrau cyfnod yr etholiad;

e) caiff mynediad i arian cyhoeddus at ddibenion gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys ar gyfer hysbysiadau cymorthfeydd, argraffu canolog a gwasanaethau post, eu tynnu'n ôl yn ystod cyfnod yr etholiad; ac

f) gellir cadw ffonau symudol/cardiau SIM a ddefnyddir i hwyluso gweithio gartref yn ystod y cyfyngiadau symud at ddibenion a ganiateir yn ystod y diddymu, pan fydd gweithio gartref yn parhau, ac ni fyddant yn destun taliadau llogi, na'r angen i ddychwelyd yr eitem i'r Comisiwn am y cyfnod diddymu.

Gohiriodd y Comisiynwyr benderfyniad ynghylch a ddylid tynnu'r cynnig o logi swyddfa at ddefnydd personol yn ôl, y gallai eu disgresiwn fod yn berthnasol i'r diddymu byrrach yn unig. Cytunwyd i dynnu sylw eu grwpiau at y mater ac y byddai'n ddefnyddiol deall safbwynt y Bwrdd Taliadau o ran unrhyw ddefnydd personol o swyddfeydd lleol yn ystod y cyfnod cyn diddymu.

Pe bai angen, pe na bai'r Senedd yn cytuno ar y Bil, cytunodd y Comisiynwyr i gadw at benderfyniad mis Mehefin ynghylch darpariaeth TGCh a chytunodd i'r defnydd o ffonau symudol a ddarperir ar gyfer gweithio gartref yn unol â'r penderfyniad tebyg a nodir uchod.

## 3 <u>Adolygiad o effeithiolrwydd cychwynnol y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu</u>

Trafododd y Comisiynwyr bapur yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu.

Croesawodd y Comisiynwyr y cynnydd a thrafod y gwaith digidol a oedd wedi digwydd. Codwyd pwyntiau yn ymwneud â chydbwysedd rhwng y rhywiau, oedran ac anableddau. Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd.

## 4 Diweddariad ynghylch COVID-19

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am y trefniadau sydd ar waith tra mae’r Senedd yn parhau i weithredu o dan reoliadau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys parodrwydd ar gyfer camau nesaf y cyfyngiadau, lles staff (gan gynnwys effeithiau addysgu gartref, cyfrifoldebau gofalu, profedigaethau a salwch), adleoli deinamig ac ailflaenoriaethu gweithgareddau, a'r pwysau sy'n cael eu teimlo ar draws y sefydliad.

## 5 Cyfeiriad strategol y Comisiwn

Cyflwynwyd trosolwg byr i’r Comisiynwyr o feysydd a nodwyd i lywio’r drafodaeth gyda hwy yn unigol i gofnodi myfyrdodau o'r hyn a ddysgwyd drwy'r darnau o waith/agweddau allweddol mwyaf arwyddocaol ar waith y Comisiwn yn ystod y bumed Senedd, a nodi materion a allai lywio’r cyfeiriad gweithredu ynghyd â ffactorau sy'n sbarduno newid ar gyfer y dyfodol agos.

Bydd y myfyrdodau hyn yn cael eu defnyddio wrth lunio papur byr i’w drafod yn y cyfarfod nesaf, ac felly helpu i ddatblygu strategaeth y Comisiwn dros y blynyddoedd nesaf.

## 6 Ffenestri newydd yn Nhŷ Hywel - astudiaeth ddichonoldeb

Nododd y Comisiynwyr yr adroddiad dichonoldeb a gynhaliwyd i gael cyngor arbenigol i lywio penderfyniad i’r dyfodol ar oblygiadau'r gyllideb, yr amseru a'r gwaith sydd ei angen i roi ffenestri newydd yn Nhŷ Hywel yn raddol.

Gofynnodd y Comisiynwyr gwestiynau am fanylion ac ystyriaethau ymarferol o ran y gwaith yr oedd ei angen, a gofynnwyd am gadarnhad nad oedd unrhyw fater wedi’i nodi fel perygl. Cytunwyd i ohirio unrhyw benderfyniad i’w drosglwyddo i’r Comisiwn nesaf, ar y sail y byddai angen ymestyn y ddarpariaeth gyllid ar gyfer y prosiect dros nifer o flynyddoedd ariannol.

## 7 Newidiadau'n ymwneud â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (gwahardd ysmygu)

Nododd y Comisiynwyr wybodaeth a oedd yn amlinellu newidiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r gwaharddiad ar ysmygu, gan roi sylw penodol i'r lloches ysmygu ar ystâd Tŷ Hywel. Roeddent yn teimlo y dylai Comisiwn y Chweched Senedd ystyried a yw'r lloches ysmygu yn gyfleuster priodol ar gyfer ystâd y Senedd.

## 8 Papurau i’w nodi

8.a Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o benderfyniadau o ran recriwtio, a gaiff ei ddarparu i bob cyfarfod o’r Comisiwn.

8.b Cofnodion drafft ARAC Tachwedd 2020

Nododd y Comisiynwyr y diweddariad arferol ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

8.c Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20

Nododd y Comisiynwyr ymateb y Comisiwn i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a ddarparwyd ers y cyfarfod diwethaf.

8.d Ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau ynghylch y Penderfyniad

Nododd y Comisiynwyr lythyr ac ymgynghoriad gan y Bwrdd Taliadau.

## 9 Unrhyw Fater Arall

- Penderfyniadau ar ddarpariaeth TGCh ar gyfer y chweched Senedd – Cytunodd y Comisiynwyr ar gynigion ar gyfer darpariaeth TGCh i'r Aelodau, a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol ac a drafodwyd ymhellach yn y cyfamser.

**Cyfrifiaduron Personol**
**Penderfyniad 1:** Dylai gliniadur bellach fod yn gynnig safonol - un i bob Aelod, ynghyd ag un yr un ar gyfer staff cymorth hyd at uchafswm o 6. Gellir prynu peiriannau ychwanegol gan ddefnyddio arian Costau Swyddfa (byddai hyn yn cynnwys y gallu i ddefnyddio peiriannau presennol sy'n parhau o fewn y disgwyliad oes â chymorth, ar gyfer Aelodau sy'n dychwelyd).
**Penderfyniad 2:** Mae gan yr Aelodau opsiwn i gyfnewid un gliniadur am gyfrifiadur bwrdd gwaith.
**Penderfyniad 3:** Holl staff swyddfeydd grwpiau i gael gliniadur.
**Penderfyniad 4:** Gall Aelodau gyfnewid eu gliniadur safonol am Microsoft Surface Pro, ond oherwydd cost uwch y ddyfais hon, byddent yn ildio'r ddyfais llechen (iPad) o'u dyraniad.

**Monitorau cyfrifiaduron a gorsafoedd docio**
**Penderfyniad 5:** Darperir monitor bwrdd gwaith a gorsaf ddocio (+ bysellfwrdd a llygoden) gyda phob gliniadur ym mhrif fan gwaith yr unigolyn.
**Penderfyniad 6:** Dyrennir un monitor a gorsaf ddocio arall i Aelodau mewn ail leoliad (e.e. gartref).

**Dyfeisiau Apple**
**Penderfyniad 7:** Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Aelodau, neu eu staff cymorth, sy'n fwy cyfarwydd â system weithredu Apple na Windows, ddewis un ddyfais Apple yn hytrach na dyfais Windows (un i bob Aelod gan gynnwys eu staff). Mae cymwysiadau’r Senedd a’r hyfforddiant sydd ar gael wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer Windows.

**Meddalwedd**
**Penderfyniad 8:** Dyrennir trwydded Office 365 bersonol i Aelodau, ynghyd â thrwydded ar gyfer y blwch post a rennir ganddynt ("Swyddfa..."). Yn ogystal â hyn, dyrennir hyd at chwe thrwydded arall iddynt ar gyfer pob un o'u staff cymorth.
**Penderfyniad 9:** Adobe Creative Cloud, os oes angen, i bob Aelod (wedi'i ddyrannu i aelod o staff cymorth).

**Argraffwyr**
**Penderfyniad 10:** Dyrennir dwy Ddyfais argraffu Amlddefnydd (argraffu, sganio a llungopïo) ac un argraffydd laser unlliw i Aelodau.

**Dyfeisiau llechen**
**Penderfyniad 11:** Dyrennir un iPad Apple i Aelodau (oni bai bod yr Aelod wedi dewis dyfais Microsoft Surface).

**Ffonau symudol**
**Penderfyniad 12:** Dyrennir ffôn symudol addas (Apple neu Android) i bob Aelod ynghyd â chontract galwadau misol a fydd yn darparu ar gyfer galwadau a negeseuon testun diderfyn yn y DU ac 16GB o ddata symudol y mis.

**Band eang**
**Penderfyniad 13:** Bod cysylltiad rhwydwaith addas yn cael ei ddarparu ar gyfer Swyddfa/swyddfeydd Etholaethol yr Aelod (uchafswm o 2).
**Penderfyniad 14:** Ni ddarperir band eang i brif breswylfa Aelodau (ac eithrio mewn achosion eithriadol). Bydd gan yr Aelodau sy'n dychwelyd ac sydd â band eang y Senedd gartref ar hyn o bryd ddeufis yn dilyn yr etholiad i wneud trefniadau newydd.

Caiff pob eithriad ei asesu fesul achos. Gall yr amgylchiadau penodol sy'n cyfiawnhau darparu band eang ym mhrif breswylfa'r Aelod gynnwys:

- Nid yw band eang confensiynol ar gael yn y lleoliad, sy'n golygu defnyddio technolegau gwahanol, mwy costus,
- Mwy nag un aelod yn byw yn yr eiddo sy'n golygu bod angen mwy o gapasiti ar gyfer gweithio o bell, neu
- Aelodau eraill o'r teulu yn methu defnyddio band eang y cartref pan fydd ei angen ar yr Aelod ar gyfer gwaith y Senedd, megis presenoldeb o bell yn y Cyfarfod Llawn.

- Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid – Nododd y Comisiynwyr lythyr a dderbyniwyd yn argymell gwneud gwaith i addysgu, ymgysylltu a hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru am ddatganoli cyllidol, a chytunwyd y dylid paratoi ymateb.

- Llythyr gan grŵp Plaid Cymru at y Prif Weithredwr – Hysbyswyd y Comisiynwyr am ohebiaeth ynghylch cymorth i staff contract a oedd yn gysylltiedig â digwyddiad mis Rhagfyr ar yr ystâd a'r ddarpariaeth arlwyo.